

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## **Adroddiad ar y Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu: Pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru**

### **Cyflwyniad**

1. Mae gan y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth yr hawl i ystyried pwerau a roddwyd i Lywodraeth Cynulliad Cymru wneud is-ddeddfwriaeth o dan y Rheol Sefydlog a ganlyn –

“15.6 Yn ddarostyngedig i 15.7, caiff y Pwyllgor ystyried y canlynol hefyd a chyflwyno adroddiadau arnynt:-

(ii) pa mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y Deyrnas Unedig sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol;”

2. Bydd y papur hwn yn amlinellu'r pwerau dirprwyedig a roddwyd i Gymru fel rhan o'r Mesur hwn ac yn gwneud argymhellion mewn perthynas â'r pwerau hyn.

### **Cefndir**

3. Mae'r Mesur Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu yn cynnwys darpariaethau ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â'r materion y cyfeirir atynt yn ei deitl byr. Cafodd cymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â llawer o'r materion hyn ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol, felly nid yw rhannau sylweddol o'r Mesur Seneddol yn berthnasol iawn, os o gwbl, i Gymru. Seiliwyd y dadansoddiad canlynol o'r Mesur Seneddol ar y fersiwn a gyflwynwyd.

### **Pwerau Dirprwyedig yn y Mesur**

4. Mae'r pwerau canlynol i wneud is-ddeddfwriaeth wedi eu dirprwyo i Weinidogion gan y Mesur –

Mae'r Mesur Seneddol yn cynnwys pwerau dirprwyedig i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth mewn perthynas â phrentisiaethau fel a ganlyn –

Cymal 5 (7):- **Y modd rhagnodedig** y bydd yn rhaid i awdurdod ardystio ar gyfer Cymru gyflwyno tystysgrif mewn perthynas â fframwaith prentisiaeth i berson sy'n gwneud cais i'r awdurdod, yw'r **modd a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.**

Cymal 5 (5):-**Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru** i wneud darpariaeth ar gyfer amodau cwblhau amgen ar gyfer Cymru i fod yn gymwys mewn achosion lle na fydd person yn gweithio o dan gytundeb prentisiaeth Cymru.

Cymal 6 (1):-**Y modd rhagnodedig** y caiff awdurdod ardystio ar gyfer Cymru gyflwyno tystysgrif mewn perthynas â fframwaith prentisiaeth i berson sy'n gwneud cais i'r awdurdod, yw'r modd a ragnodir gan reoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru.

Cymal 7 (2):-**Caiff Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru** wneud darpariaeth ynghylch cyflenwi copïau o dystysgrifau prentisiaeth a gyflwynir o dan adran 5 neu 6.

Cymal 8:- Mae'r cymal hwn yn cynnwys y pŵer i Weinidogion Cymru benodi'r awdurdod ardystio ar gyfer Cymru. Yn ystod y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin, cafodd y cymal hwn ei ddiwygio i'w gwneud yn ofynnol i'r penodiad fod **trwy orchymyn**.

Cymal 9(2):-**Caiff Rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru** ychwanegu at y materion a nodir ar y dystysgrif prentisiaeth yn ogystal â'r materion hynny yng nghymal 9(1).

Cymal 16 (3):- **Caiff Gweinidogion Cymru roi canllawiau** i bobl a bennwyd ar gyfer cyflwyno fframweithiau prentisiaeth yn gyffredinol, neu i gyflwyno fframweithiau prentisiaeth sy'n ymwneud â sector prentisiaeth penodol.

Cymal 20 (1):- **Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn**, ddarparu i fanyleb alwedigaethol gael ei thrin fel pe bai'n fframwaith prentisiaeth.

Cymal 26 (3):- **Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn**, ddarparu i fanyleb safonau prentisiaeth gael effaith, ac y bydd yn cael effaith yn ddarostyngedig i addasiadau (cymal 27).

Yn rhinwedd cymal 248(7), byddai gweithdrefn negyddol y Cynulliad yn gymwys i unrhyw Offeryn Statudol a wneir o dan y pwerau hyn.

## **Rhan 2: Swyddogaethau AALI (cymalau 40-56)**

Mae Adran 49 yn cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru **wneud rheoliadau** (yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol) ac i gyflwyno canllawiau mewn perthynas â'r ddyletswydd a roddir ar yr awdurdod lleol y mae'r plentyn neu'r person ifanc fel arfer yn byw er mwyn gwireddu potensial y sawl a gedwir yn gaeth neu'r sawl a gadwyd yn gaeth yn y gorffennol.

## **Rhan 3: Asiantaeth Dysgu Pobl Ifanc ar gyfer Lloegr (cymalau 57-77)**

Mae Adran 65 yn caniatáu i'r Asiantaeth ddarparu gwasanaethau i Weinidogion Cymru, i unrhyw berson arall, a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan arian cyhoeddus ac sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant, neu i unrhyw berson arall a nodwyd, neu o ddisgrifiad a nodwyd, **drwy orchymyn**, a wneir gan [Weinidogion Cymru] at ddibenion yr adran hon.

#### **Rhan 4: Prif Weithredwr Ariannu Sgiliau (cymalau 78-118)**

Mae Adran 103 yn caniatáu i wasanaethau gael eu darparu i Weinidogion Cymru, i unrhyw berson arall, a ariennir yn gyfan gwbl neu'n rhannol gan arian cyhoeddus ac sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud ag addysg neu hyfforddiant neu i unrhyw berson arall a nodwyd, neu o ddisgrifiad a nodwyd, **drwy orchymyn**, a wneir gan [Weinidogion Cymru] at ddibenion yr adran hon.

#### **Rhan 12:-Amrywiol (cymalau 237-247)**

Mae cymal 246 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru **drwy reoliad** sefydlu gweithdrefnau mewn perthynas â chwynion ynghylch ysgolion a gynhelir yng Nghymru ac i gyhoeddi canllawiau perthnasol.

Mae cymal 251 yn rhoi'r pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol. Nid oes unrhyw bŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru.

Mae cymal 255 yn caniatáu i Weinidogion Cymru **drwy orchymyn** gychwyn darpariaethau Cymreig y Mesur Seneddol.

#### **Materion a godwyd mewn tystiolaeth**

5. Rhoddodd y Dirprwy Weinidog dros Sgiliau dystiolaeth i'r Pwyllgor ar 27 Ebrill 2009. Wrth glywed tystiolaeth gan y Gweinidog ceisiodd y Pwyllgor gael eglurhad a rhagor o fanylion am:

- Lefel y trafodaethau rhwng swyddogion Llywodraeth y DU a swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru wrth baratoi'r Mesur a'r diffyg cymhwysedd deddfwriaethol a geiswyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- Y gwaith craffu ar y Mesur, yn arbennig yn San Steffan gan nad oedd unrhyw Aelodau Seneddol Cymreig ar y Pwyllgor Mesur Cyhoeddus.
- Yr amser a gymerwyd ar gyfer ymgynghori rhwng Gweinidogion Cymru a Llywodraeth y DU
- A oedd rhagor o ddiwygiadau i'r Mesur wedi eu ceisio
- Pam na wireddwyd y cyfle i geisio pwerau i wneud Mesurau
- Diwygiadau i'r cymalau Cymreig lle dylid gwneud dynodiad yr awdurdod ardystiol trwy Orchymyn
- Rhesymau dros beidio â cheisio cymhwysedd deddfwriaethol a phwerau i wneud mesurau ynghylch graddau sylfaen
- Y cydbwysedd rhwng yr angen am gymaroldeb y DU a hyblygrwydd mewn safonau prentisiaeth
- Yr ymrwymadau Saesneg yn unig ar gynghorwyr gyrfaoedd i sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynghori ar brentisiaethau

- Gweithredu'r 'hawl i ofyn am amser i hyfforddi'
- Pwerau i wneud darpariaethau canlyniadol a throsiannol o dan gymal 251.

### **Casgliadau'r Pwyllgor**

6. Roedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd Gweinidogion Cymru wedi defnyddio'r cyfle hwn i sicrhau pwerau i wneud Mesurau. Roedd y Pwyllgor hefyd yn teimlo na ddylid defnyddio'r rheswm a roddwyd am ddiffyg amser ac adnoddau i gyfiawnhau peidio â cheisio pwerau i wneud Mesurau. Mae'r Pwyllgor yn cyfeirio at gasgliad adroddiad y Pwyllgor ar Atodiadau Ardrethi Busnes<sup>1</sup>.

Mae'r Pwyllgor yn nodi nad oedd Llywodraeth y Cynulliad wedi ceisio pwerau gwneud Mesurau ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol ar y prosiect hwn. Er ein bod yn deall y dull hwn mewn perthynas â'r maes hwn lle nad oes gan y Llywodraeth unrhyw gynigion penodol ar gyfer Cymru, **mae'r Pwyllgor yn argymhell y dylai Llywodraeth y Cynulliad fanteisio ar gyfleoedd i geisio pwerau o'r fath pan fydd Mesurau Seneddol yn ymwneud â meysydd o fewn Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006'**

### **Argymhelliad 1**

**Mae'r Pwyllgor yn ailddatgan ei argymhelliad blaenorol bod Llywodraeth Cymru'n manteisio ar gyfleoedd i geisio pwerau o'r fath pan fydd Mesurau'n ymwneud â meysydd o fewn Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.**

7. Bu'r Pwyllgor yn holi'r Dirprwy Weinidog am y cyfathrebu rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU o ran datblygu'r Mesur. Mewn ymateb i hyn nododd y Dirprwy Weinidog:

'that is not the sort of detail that we would expect to provide because it is about confidential working arrangements between the two Governments ..... it is only right that the confidentiality that generally applies to joint working between different administrations is respected.'<sup>2</sup>

8. Tra'i fod yn parchu'r angen am gyfrinachedd rhwng gwahanol lywodraethau, cred y Pwyllgor y byddai mesur o gydweithrediad gan y Gweinidog ar y pwynt hwn wedi bod o gymorth mawr i'r Pwyllgor ac wedi ei alluogi i wneud ei waith yn well fel y nodir yn Rheol Sefydlog 15.6 (ii), sy'n

<sup>1</sup> <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid.htm?act=dis&id=124043&ds=4/2009>

<sup>2</sup> Cofnod Trafodion Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Para 39-40, 27 Ebrill 2009

pennu y gall y Pwyllgor ystyried a chyflwyno adroddiad ar ba mor briodol yw darpariaethau mewn Mesurau Cynulliad arfaethedig ac mewn Mesurau ar gyfer Deddfau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol.

## **Argymhelliad 2**

**Cred y Pwyllgor bod gofyn am fwy o dryloywder yn y broses graffu. Er mwyn caniatáu gwaith craffu llawn ac agored, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Gweinidogion Cymru'n dod yn fwy agored i'r broses graffu a bod yn barod i ateb cwestiynau am y trafodaethau rhwng Gweinidogion Cymru a Gweinidogion y DU.**

9. Mewn ymateb i gwestiynau am y gwaith craffu ar y Mesur, yn enwedig yn San Steffan, nododd y Gweinidog '*Scrutiny at Westminster is a matter for Parliament, to make sure that its scrutiny processes are all that they should be.*'<sup>3</sup> Mae'r Pwyllgor yn cwestiynu'r safiad hwn ac yn tynnu sylw'r Gweinidog at adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu a oedd yn nodi,

'roedd y broses ddeddfwriaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer cynnwys cymalau Cymreig mewn Mesur y DU ymhell o fod yn foddhaol ac nid oedd wedi caniatáu digon o amser ar gyfer craffu manwl naill ai yn San Steffan nac yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru.'<sup>4</sup>

10. Teimlai'r Pwyllgor ei bod yn bwysig bod Mesurau sydd â goblygiadau i Gymru yn cael eu craffu'n effeithiol yng Nghymru ac yn San Steffan, yn enwedig mewn perthynas â chynnwys Aelodau Seneddol Cymreig yn y gwaith craffu Seneddol ar gymalau sydd â goblygiadau i Gymru. Nododd y Pwyllgor nad oedd y Pwyllgor Mesur Cyhoeddus yn San Steffan yn cynnwys unrhyw Aelodau Seneddol Cymreig.

## **Argymhelliad 3**

**Er mwyn gwella'r gwaith craffu ar unrhyw ddeddfwriaeth a wneir o dan y Mesur hwn mae'r Pwyllgor yn argymhell bod pob gorchymyn a rheoliad drafft yn cael ei gyfeirio at y Pwyllgor Menter a Dysgu i graffu arno.**

11. Ystyriodd y Pwyllgor gymalau 20(1) a 26(3) sydd, yn ôl eu trefn, yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu i fanyleb alwedigaethol gael ei thrin fel pe bai'n fframwaith prentisiaeth a bod manyleb safonau prentisiaeth i gael effaith ac y bydd hefyd yn cael effaith yn

---

<sup>3</sup> Cofnod Trafodion Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth, Para 38, 27 Ebrill 2009

<sup>4</sup> [http://www.cynulliadcymru.org/apps/childlearn\\_bill-\\_committee\\_report-final.e.pdf](http://www.cynulliadcymru.org/apps/childlearn_bill-_committee_report-final.e.pdf)

ddarostyngedig i addasiadau (cymal 27). Cytunwyd na fyddai'r weithdrefn negyddol a fyddai'n gymwys yn rhinwedd cymal 248(7) yn rhoi digon o gyfle i graffu ar orchmynion o'r fath gan y Cynulliad Cenedlaethol.

#### **Argymhelliad 4**

**Mae'r Pwyllgor yn argymhell bod gorchmynion a wneir yn unol â chymalau 20, 26 a 27 yn cael eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**